

# MAENTWROG

**Gwerthusiad a Chynllun Rheolaeth Ardal Gadwraeth**

Chambers Conservation Ltd.

# Argraffiad

Argraffiadau: **-** Drafft Ymgynghoriad Cyhoeddus

**Chambers Conservation Ltd**
Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, rhif. 09787239
Cyfeiriad cofrestredig: Mercury House, High Street, Tattenhall, CH3 9PX
www.chambersconservation.com

# Cynnwys

**Y Rhan Gyntaf**, Gwerthusiad Ardal Gadwraeth.


1.0 Cyflwyniad
- 1.1 Sut mae Defnyddio'r Ddogfen hon
- 1.2 Golwg Cyffredinol ar yr Ardal Gadwraeth

2.0 Crynodeb o Ddiddordeb Arbennig

3.0 Llinell Amser Hanesyddol

4.0 Dadansoddiad Gofodol
- 4.1 Ffurf a Threfn
- 4.2 Golygfeydd Allweddol
- 4.3 Mannau Gleision a Choed

5.0 Cymeriad
- 5.1 Golwg Cyffredinol
- 5.2 Cymeriad Pensaernïol
- 5.3 Deunyddiau a Manylion
- 5.4 Ffiniau
- 5.5 Nodweddion, Manylion ac Arwynebau Eraill

6.0 Asedau Hanesyddol
- 6.1 Dynodedig
- 6.2 Annynodedig

7.0 Ffin yr Ardal Gadwraeth

8.0 Hanesion Cudd (Dichonoldeb Archeolegol)

9.0 Asedau Dynodedig Eraill

10.0 Bioamrywiaeth

**Yr Ail Ran**, Cynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth.

1.0 Dadansoddiad CGCB Cryno
2.0 Deall y Materion
2.1 Cyflwr
2.2 Adeiladau mewn Perygl
2.3 Golwg Cyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB
3.0 Rheolaeth Gadarnhaol
3.1 Asesu Ffiniau
3.2 Diogelwch Deddfwriaethol
3.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth
3.4 Cynaliadwyedd
3.5 Bioamrywiaeth
4.0 Ymgynghori

**Atodiadau**

A. Ffynonellau



# Y RHAN GYNTAF – GWERTHUSIAD ARDAL GADWRAETH.

# 1.0 Cyflwyniad

## 1.1 Sut mae defnyddio'r ddogfen hon

1.1.1 Dylid darllen yr Arfarniad Ardal Gadwraeth hwn ynghyd â'r ddogfen ***Cyflwyno a Throsolwg Polisi Cynllunio WEBLINK***, y gellir ei lawrlwytho o wefan y Parc Cenedlaethol. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys esboniad o ddiben a methodoleg yr Arfarniad hwn, ynghyd â chyflwyniad cyffredinol i hanes, tirwedd, adeiladau a ffurfiau anheddu a'r cyd-destun cynllunio a deddfwriaethol.

1.1.2 Yn ychwanegol at y Cynllun Rheoli sydd ynghyd â'r arfarniad ardal hwn, mae ***Cyngor Ynghylch Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth - Canllaw Cynllunio ac Ymarferol WEBLINK*** ychwanegol wedi'i pharatoi er mwyn ymateb i'r argyfwng newid yn yr hinsawdd presennol, gan roi cyngor ymarferol ynghylch sut i wella perfformiad ynni adeiladau traddodiadol ac o arwyddocâd lleol heb niweidio eu cymeriad arbennig na'u gweithrediad technegol.

## 1.2 Golwg cyffredinol ar yr ardal gadwraeth

1.2.1 Diffinnir hyd a lled ardal yr astudiaeth yn rhannol gan ffin yr Ardal Gadwraeth (gw. Ffig. 02), ond cynhwyswyd y cyffiniau agos (gan gynnwys yr ardaloedd tirwedd gerllaw) er mwyn deall y cyd-destun ehangach a phenderfynu a fyddai unrhyw newidiadau i'r ffin yn addas.

**Lleoliad a Gosodiad**

1.2.2 Mae Maentwrog yn bentref yng Ngwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae tua 10km i'r de-orllewin o Flaenau Ffestiniog a 15km i'r dwyrain o Borthmadog.


1.2.3 Eistedda'r pentref yn Nyffryn Maentwrog ar dir sy'n wynebu'r gorllewin, ar oleddf i lawr tuag Afon Dwyryd a thua'r môr ym Mae Tremadog. Mae'r tir yn serthach y tu hwnt i'r pentref, gan fynd yn glogwyni a darparu cefnlen hynod ddeniadol o'u gweld o Blas Tan y Bwlch.

1.2.4 Mae Plas Tan y Bwlch gyferbyn â'r pentref ar ochr draw'r dyffryn. Dyma gyn-gartref y teulu Oakeley, i ba rai mae'r pentref yn ddyledus am ei wedd bresennol megis pentref ystâd pictwrésg.

1.2.5 Dyddiad dynodi: 1975



**01** Golwg ar Faentwrog o deras Plas Tan y Bwlch (2021).




Existing Conservation Area
1:5000 at A4

**02** Cynllun o'r Ardal Gadwraeth ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

# 2.0 Crynodeb o Ddiddordeb Arbennig

2.1.1 Mae Maentwrog mewn safle eithriadol uwch Dyffryn Maentwrog. Mae'r pentref, ei drefn a'i bensaernïaeth wedi'u llunio tros gyfnod maith gan genedlaethau olynol teulu chwarelyddol, dylanwadol Oakeley. Hwy fu preswylwyr 'y Plas', Plas Tan y Bwlch ar ochr draw'r dyffryn o'r pentref.

2.1.2 O ganlyniad mae Maentwrog wedi dod yn bentref ystâd dynodedig, gyda golygfeydd o deras a gerddi'r Plas yn neilltuol bwysig i'r gwerth hanesyddol hen. Erys llawer o olygfeydd hyd heddiw. Cynlluniwyd y pentref i wneud y defnydd mwyaf o'r dirwedd, hefyd, a'r bensaernïaeth i ymddangos yn ddymunol, sydd yn cyfrannu at yr arwyddocâd trwy werth esthetig. Mae hyn i'w weld yn neilltuol mewn golygfeydd allweddol tua'r anheddiad ac oddi yno. Clustnodir y golygfeydd hyn yn benodol yn ddiweddarach yn yr arfarniad hwn. Mae elfennau allweddol yn cynnwys:

- Y golygfeydd hirion o Blas Tan y Bwlch gan ddangos y pentref yng nghyd-destun y llethr y tu cefn.
- Golygfeydd yn ôl tua Than y Bwlch o Eglwys Dwrog.
- Golygfeydd yn ôl at Blas Tan y Bwlch o'r llwybr troed rhwng Coed Camlyn a Thŷ Nant.

2.1.3 Mae gosodiad y dirwedd a thirlun serth Maentwrog yn hanfodol i'r diddordeb arbennig. Mae golygfeydd tua ac o'r llethrau cyfagos yn hanfodol i'r ymdeimlad o le ac i werth cymunedol canlyniadol, fel y mae presenoldeb creigiau noethion, coetiroedd a thir amaeth o fewn y pentref. Clustnodir y golygfeydd hyn yn benodol yn ddiweddarach yn yr arfarniad hwn. Mae elfennau allweddol yn cynnwys:

- Golygfeydd o'r anheddiad o'r llwybr rhwng Coed Camlyn a Thŷ Nant.
- Golygfeydd yn ôl o fynwent Eglwys Dwrog sy'n dangos tirffurf y Grapes a'r Rhes, i fyny at Benlan a Than Lan.
- Golygfeydd o'r anheddle efo'r Moelwynion yn y cefndir.
- Golygfeydd tua'r grisiau i Benlan ac oddi yno.

2.1.4 Mae treftadaeth safadwy adeiledig Maentwrog yn darparu darlun cadwrus o'i gysyniad pictiwrésg, a adlewyrchir yn y bensaernïaeth, y deunyddiau a'r



**03** Pont Maentwrog, tua 1811. Ysgythriad o ddarlun gan J.F.Neale, â'r Moelwynion yn y cefndir. (Wikimedia Commons).



**04** Yr Hen Reithordy. Moelwyn Mawr braidd i'w weld yn y cefndir (2021).

manylion, sy'n ategu arwyddocâd hynod trwy werth esthetig a hanesyddol. Mae elfennau allweddol yn cynnwys:

- Yr Hen Reithordy (Glan William, gynt), cyfansoddiad arbennig o dda o ddechrau'r 19eg ganrif mewn haenau o glytiau sgist o Gelli Grin.
- Y rhes sy'n cynnwys Gwesty'r Grapes, sy'n elfen allweddol yn y Stryd Fawr, mewn cyflwr da, efo ffenestri da a deunyddiau a manylion neilltuol.
- Lledaeniad Stryd Bwl (y ffordd i Harlech) o flaen Llys Twrog, sydd hefyd â llechi trwchus mewn haenau sy'n mynd yn feinach.
- Newidiadau lefelau gyda'r grisiau i fyny at Benlan a fflatiau Penlan, efo'r grisiau hynod neilltuol.
- Uchder a graddfa Tan Lan, yn arbennig efo'r amgaefa creigiau gwaelodol a rheiliau'r gofeb ryfel.
- Datblygiadau diweddarach gan gynnwys porth mynwent o ansawdd da, ac Eglwys Dwrog, gan gyfeirio at y datblygiadau a wnaed tan ddylanwad William Edward Oakeley ddiwedd y 19eg ganrif.
- Defnydd deunyddiau, a gwrthgyferbyniad rhwng cerrig calch, creigiau igneaidd a sgist yn neilltuol. Mae manylion allweddol fel linteri sgist gwrthgyferbyniol a cholofnau sgist yr ysgubor wair yn bwysig.

2.1.5 Mynegir arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol ychwanegol gan y cyfeiriadau at Faentwrog ym mhedwaredd gainc y Mabinogi, *Math fab Mathonwy.*

2.1.6 Tybir bod yr enw 'Maentwrog' yn deillio o'r hanes i'r cawr *Twrog* daflu carreg fawr o'r clogwyn uwch y pentref i falurio allor baganaidd. Erys y garreg yn faen hir nesaf at dŵr yr eglwys, gan ychwanegu at y gwerth cymunedol.

# 3.0 Llinell Amser Hanesyddol

3.1.1 Rhoddir sylw manwl i hanes Maentwrog mewn mannau eraill. Ni fwriedir i'r crynodeb isod gynnig dim ond cyd-destun.

**Cynhanes**

3.1.2 Mae tystiolaeth ynghylch gweithgaredd cynhanesyddol a Rhufeinig yng nghyffiniau'r pentref, er nad o fewn yr Ardal Gadwraeth. Efallai fod y maen hir, 'Maen Twrog' yn y fynwent yn faen hir cynhanesyddol, a chredir bod



**05** Golygfa o Blas Tan y Bwlch o lwybr troed yn ymyl Tŷ Nant (2021).




**06** Gwesty'r Grapes a'r Rhes o'r gogledd (Peter Trimming, CC BY-SA 2.0 Wikimedia Commons).

carreg gerfiedig Rufeinig a gynhwyswyd yn adeiladwaith Gwesty'r Grapes wedi dod o gaer Rufeinig Tomen-y-mur[1].

3.1.3 Byddai'r ffordd Rufeinig o Domen-y-mur[2] i Segontium wedi mynd i'r gogledd o Ddwyryd a chanfuwyd gwrthrychau Rhufeinig tua 500m i'r gogledd o Bont Maentwrog.

**Canol-oesol**

3.1.4 Crybwyllir yr anheddiad ym mhedwaredd gainc y Mabinogi, Math fab Mathonwy. Wedi croesi'r Traeth Mawr wrth ffoi tua'r de rhag byddin Math, lleddir Pryderi mewn gornest gan Gwydion yn Felinrhyd, enw lle tua milltir i'r gorllewin, ac yna fe'i cleddir ym Maentwrog.

3.1.5 Crybwyllir Maentwrog yn yr Oesoedd Canol yn rholiau cymhorthdal lleyg Meirionnydd ar gyfer 1293-4. Crybwylla'r rhain 'letywr', gan awgrymu bod y pentref eisoes yn arhosfa ar gyfer teithwyr. Cysylltir yr enw â gwesty yn hytrach na sefydliad llai moethus y dafarn.

3.1.6 Sylfaenwyd Eglwys Dwrog yn y cyfnod canoloesol, ond fe'i disodlwyd gyntaf ym 1814, ac yna gan yr adeilad presennol ym 1896.[3]

3.1.7 Cysylltir datblygiad y pentref yn annatod â datblygiad ystâd Plas Tan y Bwlch. Cyfeirir gyntaf at Dan y Bwlch ym 1429, pen gyfeirir ato fel man perthynol i 'Drefgordd Ffestiniog'.[4] Tybir i'r ystâd ddechrau yn yr 16eg ganrif, debyg, pan gofodd Ieuan ab Iorwerth ab Adda (fu farw tua 1530) a'i ddisgynyddion eiddo a thir yn ardal Maentwrog a Ffestiniog.

**16 – 17eg Ganrif**

3.1.8 Cyfeiriwyd at Dan y Bwlch yn ewyllys Robert Evans yn 1602. Priododd ei fab Robert â Lowri Prys, wyres Edmwnd Prys, Tyddyn Du, Rheithor Maentwrog ac Archddiacon Meirionnydd. Cynhwysai waddol Lowri Riwbryfdir (yn ymyl Blaenau Ffestiniog), y tir lle datblygid Chwarel Oakeley.

3.1.9 Daeth Ifan, mab Robert a Lowri, yn Siryf Meirionnydd ym 1634, ac efe, debyg, a adeiladodd y tŷ cyntaf yn ei leoliad presennol. Priododd Catrin, aeres y teulu Evans, Robert Griffith of Fach y Saint yn ymyl Cricieth, gan ehangu rhagor ar yr ystâd. Bu i'w hŵyr, Robert Griffith, Ailadeiladu ac ymestyn y tŷ tua'r flwyddyn 1748. Pan fu farw Robert Griffith, ymestynai ei diroedd o Bwllheli i Lanegryn.[5]



**07** Golygfa tua'r Plas o Bont Maentwrog cyn addasu'r afon, diwedd y 18fed ganrif.




**08** Dyffryn Maentwrog gan edrych tua'r pentref, gan ddangos y plas a'r pentref (tua.1840).

---

[1] Evans, R a Robertson, A, *Maentwrog Draft Ardal Gadwraeth Appraisal*, 2012. (heb ei gyhoeddi)
[2] https://coflein.gov.uk/en/site/95476/
[3] Voelcker, A. et.al. (2009) The Buildings of Wales: Gwynedd (Yale University Press, London) p.672
[4] Hughes, G, House on a Hill.

[5] http://www.llechicymru.info/IQPOakeley.english.htm

Y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg Century

3.1.10 Golygai lleoliad Maentwrog ym mhen draw mordwyadwy Dwyryd y bu'n fynedfa fasnachol ar gyfer Dyffryn Maentwrog. Mae tystiolaeth eglur yr allforid pren o'r ardal tua 1739, ond dechreuodd Maentwrog dyfu o ddifrif gan ddatblygodd y diwydiant llechi.

3.1.11 Priododd Margaret, wyres ac aeres Robert, Sais cyfoethog, William Oakeley ym 1789. Arweiniodd hyn at wella'r adeiladau a'r ystâd, gan gynnwys draenio a chodi cloddiau yn nyffryn llanwol Dwyryd er mwyn creu tir amaethyddol gwell o lawer. Ailadeiladodd Oakeley'r stablau, eglwys Maentwrog a ffordd newydd o Faentwrog i Harlech, hefyd.

3.1.12 Parhaodd eu mab, William Griffith (WG) Oakeley (1790-1835) i fuddsoddi yn yr ystâd, ac y mae llawer o'r adeiladau a oroesodd ym Maentwrog yn dyddio o'r cyfnod hwn, gan gynnwys yr eglwys newydd (a ailadeiladwyd yn ddiweddarach), Gwesty'r Grapes a'r tai cyffiniol (1834).

Diwedd y 19eg ganrif


3.1.13 Trawsffurfiodd William Griffith Oakeley Chwarel Oakeley yn ymerodraeth lechi broffidiol. Daeth llawer o'r llwyddiant hwn yn sgil achos cyfreithiol nodedig ac enwog pan aeth â'r Arglwydd Rothschild i gyfraith am dresmasu ar dir Tan y Bwlch wrth iddo chwilio am fwynau a llechi. Bu iddo wella cludo llechi trwy adeiladu sawl cei llechi ar Ddwyryd, a bu iddo ran yng nghreu Rheilffordd Ffestiniog, sy'n mynd ar hyd ochr arall y dyffryn, uwchlaw'r Plas, gan ganiatáu cludo llechi'n gyflym.

3.1.14 Ym 1823 ymadawodd WG am Berkshire, gan benodi ei gefnder, oedd hefyd yn William Oakeley, i gynnal yr ystâd. Bu fyw ym Maentwrog i ddechrau, yn yr adeilad a elwir 'Yr Hen Reithordy' heddiw (Glan William, ar y pryd). Bu farw WG a'i gefnder o fewn blwyddyn i'w gilydd, a gadawyd yr ystâd i Louisa Jane, gwraig WG Oakeley. Yn y diwedd aeth i William Edward Oakeley (1879-1912), nai WG a mab William.

Yr 20fed Ganrif.

3.1.15 Treuliodd WE Oakeley gryn arian ar y Plas ac ar ailddatblygu Maentwrog, hefyd, gan gynnwys ailadeiladu'r ysgol (1871-2) a'r eglwys yn ôl cynlluniau Douglas a Fordham ym 1896.

3.1.16 Yn dilyn marwolaeth WE Oakeley rhannwyd yr ystâd rhwng ei fab a'i ferch (Edward a Mary Caroline). Prynwyd tiroedd Edward gan ferch Mary Caroline, Hilda Mary Inge. Parhaodd Mary Caroline i fyw ym Mlas Tan y Bwlch hyd 1961, pan werthwyd yr ystâd i dalu tollau marwolaeth.



**09** Map degwm 1840 (sylwch fod y gogledd ar y chwith).


**10** Llys Twrog efo to llechi sy'n lleihau tua'r grib a chyd-destun tirweddol o'r grisiau i Argraig (2021).

3.1.17 Prynodd Cyngor Sir Feirionnydd y tŷ a'i libart ym 1969 ac yn y diwedd daeth y rhain tan reolaeth Parc Cenedlaethol Eryri, a agorodd Ganolfan Astudiaethau'r Parc Cenedlaethol ym 1975.

3.1.18 Cymharol ychydig o newid fu yn y pentref ers diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan sicrhau bod cysyniad pictwrésg y pentref, fel y'i gwelir o'r Plas, yn aros, ac y gellir parhau i'w ddeall a'i werthfawrogi.

# 4.0 Dadansoddiad Gofodol

## 4.1 Ffurf a Threfn yr Anheddiad

4.1.1 Mae ffurf anheddiad Maentwrog yn ymateb, yn bennaf, i'w leoliad yn y dirwedd, wedi'i addasu i edrych ei orau pan edrychir arno o Blas Tan y Bwlch efo Dwyryd ym mlaen y darlun.

4.1.2 Trefnir y pentref ar lechwedd sy'n wynebu'r gorllewin, gan edrych i lawr Dyffryn Maentwrog tua'r môr ym Mae Tremadog. Trefnir yr adeiladau'n bennaf am y ffordd sy'n mynd tua Harlech, sy'n dilyn y llechwedd tua'r gorllewin ar hyd y dyffryn cyn troi i'r de tua Thalsarnau.

4.1.3 Trefnir y pentref yn bonciau grisiog er mwyn ymateb i ffurf y tir a'r olwg arno o'r Plas fel ei gilydd, gyda'r rhannau uchaf yn defnyddio'r ffordd sy'n cysylltu'r pentref â Gellilydan ar ochr ddwyreiniol y bryn.

4.1.4 Mae ffurf yr anheddiad eto'n eithaf tebyg i'r hyn a ddangosir ar fap ystâd 1841, sy'n adlewyrchu'r gwelliannau ffordd a wnaed gan y William Oakeley cyntaf.

4.1.5 Yn gyffredinol, mae newidiadau diweddarach wedi ymateb i ffurf wreiddiol y pentref, a'r unig newid sylweddol fu Coed Camlyn, i'r de o ganol y pentref islaw Pen-y-foel.

## 4.2 Golygfeydd allweddol

4.2.1 O fewn yr ardal gadwraeth mae sawl golygfa allweddol sy'n darlunio naill ai ddatblygiad hanesyddol y pentref, neu'n caniatáu gwerthfawrogi nodweddion neilltuol neu adeiladau pwysig, neu'n rhoi amgyffrediad priodol o'i ddatblygiad o fewn y dirwedd ehangach. Mae golygfeydd eraill yn gipolygon pwysig rhwng adeiladau, neu at nodweddion allweddol sy'n cyfrannu at amgyffrediad neu gymeriad yr ardal.



**11** Golygfa tua Maentwrog a'r tollty o Bont Maentwrog (2021).



**12** Yr eglwys o borth y fynwent. (2021).

4.2.2 Mae golygfeydd naill ai'n statig (golygfa gyfeiriadol benodol) neu'n ddynamig, yn cynnwys maes golwg o fan neilltuol.

4.2.3 Mae'r rhain fel a ganlyn (gw. Ffig. 16):

**A** Golygfeydd dynamig yn dangos y pentref yn ei osodiad fel y'i hamgyffredir yn y golygfeydd o Blas Tan y Bwlch, a'r 'gwelliannau' yn Nwyryd.

**B** Golygfeydd dynamig yn dangos y pentref yn ei osodiad o'r Oakeley Arms a'r cyffiniau.

**C** Golygfa o Bont Maentwrog tua Maentwrog.

**D** Golygfa o Faentwrog yn ôl o gyfeiriad Plas Tan y Bwlch o'r eglwys.

**E** Golygfeydd o Faentwrog o'r llwybr troed islaw Coed y Fron.

**F** Golygfeydd ar hyd Stryd Bwl heibio i'r Grapes tua Llys Twrog a'r sgwâr gynt.

**G** Cipolygfeydd o Blas Tan y Bwlch o Stryd Bwl.

**H** Golygfa o ganol y pentref o ben deheuol yr Ardal Gadwraeth.

**I** Golygfa ar draws y pentref tua Moelwyn Mawr

**J** Golygfa i lawr Stryd Bwl, efo'r Grapes ac adeiladau cyfagos, gyda'r Moelwynion yn gefnlen.

**K** Golygfeydd i fyny ac i lawr grisiau tuag Argraig a Bryn.

**L** Golygfeydd dynamig yn ôl o'r eglwys tua'r pentref, gan ddangos cefnluniau a gwahanol lefelau.

**M** Golygfa tua'r eglwys i borth y fynwent.

**N** Golygfa tua Phlas Tan y Bwlch a Dyffryn Maentwrog o'r tu blaen i Fron Fair.



**13** Allt goediog uwchlaw Gwesty'r Grapes. (2021).



**14** Porfa islaw Tŷ Nant, efo Moelwyn Mawr yn y cefndir. (2021).

## 4.3 Mannau gleision a Choed

4.3.1 Mae mannau gleision Maentwrog yn amrywiol ac yn hanfodol ar gyfer diddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth.

4.3.2 Y tu dwyrain i'r pentref mae'r tir yn codi'n serth iawn i fyny tua Phen y Clipiau. Mae'n allt goediog iawn, efo coed bedw ar y rhan isaf, coed pîn Albanaidd uwchlaw, a choetiroedd derw hanesyddol, gwarchodedig yn ehangach. Mae hyn yn bwysig megis cefnlen i olygfeydd hirion o Blas Tan y Bwlch ac i olygfeydd mwy cyfyngedig o fewn y pentref fel ei gilydd.

4.3.3 Rhwng Coed Camlyn a Thŷ Nant, i'r de-ddwyrain o'r ardal, mae ardal o dir amaeth agored sy'n darparu blaendir pwysig i olygfeydd o Goed y Fron a'r llwybr troed sy'n cysylltu â Thŷ Nant.

4.3.4 Tua'r dwyrain mae'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys rhan o'r tir a 'wellhawyd' gan deulu Oakeley. Mae'n neilltuol iawn, gyda chloddiau pridd a draeniau i greu tir amaeth wedi'i ddraenio'n well, ac yn arwyddocaol iawn, hefyd, yng nghyd-destun golygfeydd allweddol o Blas Tan y Bwlch, yn ogystal â gosodiad yr eglwys, y fynwent a Maen Twrog.


4.3.5 Diogelir coetir cyffiniau Maentwrog gan sawl gwahanol ddynodiad. Cyfeirier at Adran 9.0.

4.3.6 Dangosir coedlannau neilltuol eraill ar y cynllun yn Ffig. 17. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ywen unigol hardd yn y fynwent, a choed eraill ar ymylon y mynwentydd gwreiddiol ac estynedig.
- Cyfosodiad coed rhwng Dwyryd a'r eglwys.
- Coed ar ffin tir amaeth uwch Coed Camlyn.
- Coed ar hyd nant yn nesaf at Geunant Bach a Than y Ffordd.




**15** Coed gerllaw Ceunant Bach. (2021).




Key Views
1:5000 at A4

**16** Golygfeydd Allweddol ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)




Trees
1:5000 at A4

**17** Coed a Dynodiadau Cysylltiedig ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

# 5.0 Cymeriad

## 5.1 Golwg gyffredinol

5.1.1 Mae Maentwrog yn bentref ystâd, sydd ynddo'i hun yn gysyniad pictwrésg, wedi'i gynllunio i eistedd yng ngolwg Plas Tan y Bwlch ac i wneud y gorau o'i leoliad unigryw ar lethr serth sy'n wynebu'r gorllewin, gan ddal yr haul yn hwyr y dydd. Fe'i gwarchodwyd yn dda trwy restru a cheidw peth wmbredd o'r cymeriad arbennig hwn.

5.1.2 Yn weledol mae'r lefelau'n bwysig iawn. Mae'r eglwys ar lefel is, ychydig uwchlaw dolau'r afon, efo rhesi o adeiladau wedi'u trefnu ar derasau uwchlaw, gan wneud y gorau o'r effaith bictwrésg.

5.1.3 Mae datblygiad y pentref ystâd yn amlwg yn arddull esblygol yr adeiladu, gan adlewyrchu dylanwad gwahanol genedlaethau teulu Oakley. Mae adeiladau cynnar fel yr Hen Reithordy yn amlwg o gyfnod y Rhaglywiaeth, gyda bargodion llydan a ffenestri codi mawrion.

5.1.4 Mae materoldeb a'r berthynas ganlyniadol â'r graig noeth yn gynhenid i'r cymeriad. Mae amrywiaeth y mathau o garreg, eu huniad a'u naddiad oll yn ffactorau pwysig.

5.1.5 Bu twristiaeth a'r economi ymweld yn hanfodol i Faentwrog ers y 18fed ganrif a chyn hynny, wedi'i hatgyfnerthu gan ddyfodiad twristiaid Pictwrésg i Ddyffryn Maentwrog.

5.1.6 Mae pwysigrwydd y ffordd i Harlech ac adeiladu'r bont newydd yn nesaf at Bont Maentwrog wedi dod â chynnydd traffig ymwelwyr i'r pentref, ond nid yw aliniad a threfn ei ffyrdd wedi newid llawer, gan gadw cymeriad y pentref ystâd.

## 5.2 Cymeriad Pensaernïol

5.2.1 Mae cymeriad pensaernïol presennol yr anheddiad, cyn belled â Choed Camlyn, o leiaf, yn teimlo'n gydlynol, gyda'r cyfan yn cyfuno â'i safle yn y dirwedd i greu canlyniad hynod bictwrésg.

5.2.2 Diffinnir y cymeriad pensaernïol yng ngogledd yr Ardal Gadwraeth gan y berthynas rhwng Dwyryd a Phont Maentwrog[6]. Mae'r tollty (fel y nodwyd

[6] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=4824



**18** Gwesty'r Grapes a'r rhes gyfagos ar Stryd Bwl (2021).



**19** Yr Hen Reithordy (Glan William, gynt). (2021).

yn Arolwg Ordnans 1888)[7] yn union nesaf at ben deheuol y bont. Mae'n adeilad o waith rwbel gyda ffenestri pyst carreg a cherrig diddosi o lechfaen Ffestiniog. O'i gyfuno â Phont Maentwrog crea ddarlun eglur o'r ffordd 19eg ganrif i mewn i'r pentref. Mae'r bont gyfoes yn mynd â'r A487 tua'r dwyrain ac yn creu golwg newydd ar y bont gynharach.

5.2.3 Mae'r ffordd (the A496/Stryd Bwl) yn dechrau codi'n raddol â'r dirffurf, efo'r Hen Reithordy ar ochr orllewinol y ffordd a'r llethr serth yn diffinio'r dwyrain. Mae'r hen reithordy'n adeilad nobl iawn[8], wedi'i adeiladu o garreg sgist neilltuol chwarel Gelli Grin gerllaw, a agorwyd gan William Gruffydd Oakeley (1790-1835) i helpu datblygiad Maentwrog a'r Plas.

5.2.4 Wedi'i adeiladu o haenau o grawiau sgist nadd hirion, y mae'n gyfansoddiad Rhaglywyddol diddorol, efo to llechi talcen slip a bargodion ysgwyddog hynod ddwfn. Mae'r simneiau'n hynod neilltuol hefyd, yn barau gyda bwâu cysylltiol. I'r de mae estyniad diweddarach gyda tho pilen anffodus, braidd, sydd yn eithaf dolur llygad.

5.2.5 Rhwng y Rheithordy a Gwesty'r Grapes mae'r stablau blaenorol, a thai allan y ddau adeilad (hwy ill dau o ganol y 19eg ganrif.)[9] Y tu draw i stablau'r gwesty[10] mae adeilad mewn cyflwr go wael y mae arno angen defnydd newydd addas. Gyferbyn mae modurdy diweddarach (ddechrau'r 20fed ganrif, debyg) o beth diddordeb, ac yn gysylltiedig â'r Grapes hefyd, gellid tybio. Mae'r adeiladau hyn yn bwysig yng nghyd-destun y gwesty a Stryd Bwl, gan adlewyrchu swyddogaeth y pentref megis man aros ar gyfer teithwyr.

5.2.6 Mae Gwesty'r Grapes (y Maentwrog Inn, gynt) yn ben rhes ar ochr orllewinol y ffordd, ac yn grŵp hynod neilltuol a nodweddiadol a adeiladwyd gyntaf yn y 1830au. Maent yn ddeulawr ar lefel y stryd, gan ymestyn i dri y tu cefn wrth i'r tir ddisgyn. Maent yn adeiladau haenau cerrig (igneaidd), yn gyffredinol o lin manach na'r sgist a ddefnyddir ar gyfer linteri, ac y mae hyn yn arbennig o neilltuol lle bo'r linteri'n cydgysylltu i ffurfio haen barhaus ar Neuadd Llewelyn[11] a Glan Dwyryd[12]



**20** Stablau Gwesty'r Grapes, gynt (ar y dde), ac adeilad dirywiedig yn nesaf atynt (2021).



**21** Llys Twrog a'r sgwâr, gynt. (2021).

[7] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=83966
[8] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=4776
[9] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=84019
[10] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=84018
[11] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=4821
[12] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=4820

5.2.7 Mae gan y Grapes bortico syml sy'n ymestyn allan, ac y mae'r coparét gynt[13], dyddiedig 1834, eto ag agorfeydd cysylltiedig ag wyneb siop, er fe all y bu â ffrâm bren. Mae'r holl adeiladau'n dal â ffenestri codi lle wynebant y stryd.

5.2.8 Saif Pen-y-bryn[14], Llys Twrog[15] a Bron-y-wern[16] y tu hwnt, efo Llys Twrog wedi'i osod ar ongl sgwâr i'r lôn, gan ffurfio 'sgwâr' yn wreiddiol. Yn ddiweddar mae'r sgwâr wedi'i ymgorffori mewn tramwyfeydd ceir a gerddi.

5.2.9 Rhwng Neuadd Llewelyn a Phen-y-bryn mae porth mynwent Eglwys Dwrog, o waith John Douglas, gellid tybio. Yn adeilad hynod neilltuol, â fframwaith pren efo carreg Gelli Grin wedi'i defnyddio'n baneli llanw, mae'n fframio golygfa dda o'r eglwys y tu hwnt.

5.2.10 Gyferbyn â Neuadd Llewelyn, mae tŷ pedwar llawr Tan Lan yn sefyll yn uchel uwchlaw'r lôn. Mae'n neilltuol, wedi'i wneud o gerrig rwbel llai, wedi'i rendro hyd y talcenni, ac eto â'i gyfraneddau'n rhai Rhaglywyddol pendant. Mae grisiau â cherrig copa sgist yn arwain i fyny at feranda gyfoes llawr cyntaf. Mae uchder Tan Lan yn bwysig, gan ei fod yn peri y gellir ei weld, o'r Plas, uwchlaw'r rhes gyferbyn. Yma bu Ystafell Ddarllen Oakley, yn wreiddiol, Yn nesaf at Dan Lan mae'r gofeb ryfel, wedi'i osod mewn cilfach â'r graig waelodol o boptu, a rheiliau haearn rhyngddi a'r stryd.

5.2.11 Y tu hwnt i Dan Lan mae'r grisiau neilltuol wedi'u rhannu'n ddwy ran gan wal cerrig nadd efo cerrig copa sgist nadd mawr iawn. Arweiniai'r grisiau chwith i fyny at y tŷ ym Mhen-lan, a'r grisiau de at drigfa'r gweision (a elwir yn fflatiau Bryn neu Benlan, bellach). Mae ansawdd y gwaith cerrig a lled y grisiau'n adlewyrchu'n amlwg statws ymddangosiadol y defnyddwyr, gan fod y grisiau chwith o ansawdd gwell.

5.2.12 Mae'r Bryn yn creu nodwedd hynod iawn ym mhen y grisiau. Mae wedi'i ongli tua'r de-orllewin, ac yn creu congl ymledol gryf, gan ystumio'r persbectif gweledol a gwella'r effaith bictwrésg.

5.2.13 Islaw Bryn, gyferbyn â Llys Twrog, mae rhes o fythynnod, eto'n dyddio o ganol y 19[eg] ganrif, mewn cyflwr allanol da efo ffenestri codi. Mae'r walio'n cyfuno linteri sgist a cherrig rwbel wedi'u gosod ar hap.



**22** Porth mynwent Eglwys Dwrog (2021).



**23** Tan Lan a'r gofeb ryfel. (2021).

[13] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=4822
[14] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=4835
[15] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=4832
[16] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=4833
[17] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=84008
[18] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=4825
[19] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=84021

5.2.14 Mae'r lôn yn hollti yma, efo ffordd Harlech (Stryd Bwl/A496) yn mynd ar i waered ychydig tua'r de-orllewin, a ffordd Gellilydan yn codi tua'r de-ddwyrain, a'r graig waelodol wedi'i dinoethi ar y gongl yn nodwedd neilltuol.

5.2.15 I'r dwyrain o Ffordd Gellilydan, mae gan Dŷ'r Ysgol[17] (ysgoldy o ddechrau'r 19[eg] ganrif) ddrws bwaog neilltuol a linter sgist mawr iawn tros agoriad y ffenestr ogleddol. Yn nesaf ato mae Dolydd[18] neu 'Old School Cottage' yn adeilad unllawr Rhaglywyddol. Ynghyd â Derwen (nas rhestrir) nesaf atynt, sydd â ffenestri cyfoes, maent yn grŵp dymunol.

5.2.16 Ymhellach i fyny'r allt mae rhesdai rhestredig Fron Goch a Fron Fair. Mae gan Fron Goch ragor o fanylion gyda ffenestri cromen. Mae Fron Fair yn symlach ac yn uwch i fyny ar y llwybr y tu cefn. Mae gan y ddwy res rai ffenestri newydd.

5.2.17 Mae'r rhes yn Fron Oleu gyferbyn â Glasfryn yn ddymunol, efo ffenestri cromen, cerrig rwbel a ffenestri codi. Rhyfedd nas rhestrwyd fel eu rhai cyfatebol ym Mron Goch a Fron Fair, gw. 6.0. Mae Glasfryn gyferbyn wedi'i baentio a gosodwyd ffenestri newydd ar yr wyneb gogleddol, ond fel arall mae'n ffermdy diamhariad o ddechrau'r 19[eg] ganrif â thai allan cysylltiedig.

5.2.18 Mae Capel Gilgal, a adeiladwyd ym 1919, mewn cyflwr da ac yn sefyll uwch y lôn. Mae ganddo waliau a rheiliau ffiniol da hefyd, ond ymddengys ei fod ar gau.

5.2.19 Y tu hwnt i Gapel Gilgal, mae bythynnod newidiedig Tŷ Nant a Thŷ Capel yn dynodi ffin yr Ardal Gadwraeth, ond ychydig ymhellach i fyny'r allt (y tu hwnt i'r ffin) mae'r Hen Danerdy, sy'n adeilad melin neilltuol yng Ngheunant bach.

5.2.20 Yn ôl ar hyd ffordd Harlech, gyferbyn â'r gyffordd, mae Capel Seion (1906) gynt. Mae wedi'i newid yn breswylfa, bellach, ond fel arall mae wedi cadw ei wedd allanol gwreiddiol.

5.2.21 Y tu hwnt i'r gyffordd, ar ochr ddwyreiniol y ffordd, mae'r Hen Ysgol o ddiwedd y 19[eg] ganrif, a adeiladwyd ar gais William Edward Oakeley (tua 1871-2.) Mae wedi'i newid rywfaint efo ffenestri cyfoes, ond mae'r pigyn a manylion eraill yn dangos ei ddiben gwreiddiol. Mae ganddo grib lechfaen addurnedig o ansawdd da, hefyd, a chyfuniad o lechi lletraws a sythlin mewn haenau ar y to.



**24** Tŷ'r Ysgol, Dolydd a Derwen (2021).



**25** Capel Gilgal (2021).

[20] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=4829
[21] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=4830
[22] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=84004

5.2.22 I'r de mae dau bâr o fythynnod, oll wedi'u rhestru'n unigol, 1-2 a 3-4 Tai Glandŵr. Mae ganddynt oll yr un patrwm llechi to â'r Hen Ysgol, arcedau pren yn wynebu'r stryd, a waliau a rheiliau terfyn da. Yn anffodus mae gan 2, 3 a 4 oll ffenestri uPVC cyfoes. Y tu hwnt mae tŷ cyfoes (Gernant) a rhes o dai cyngor gynt (tua 1950), wedi'u gosod ar ongl i ffordd Harlech.

5.2.23 Mae ffordd bengaead Coed Camlyn a'r ddau dŷ unllawr sy'n wynebu ffordd Harlech yn anghydnaws â phatrwm ac estheteg y pentref ac yr oedd rhai o'r tai heb eu cwblhau ar adeg yr arolwg.

5.2.24 Saif Derlwyn a'r ysgubor wair dda (hwy ill dau'n rhestredig) ar derfyn de-orllewinol yr Ardal Gadwraeth, ac fe'u trwsiwyd yn ddiweddar . Mae pileri sgist tal yr ysgubor wair yn neilltuol iawn. Buasai eraill o fath tebyg yn yr ardal, a symudwyd un gyffelyb o Faentwrog i Amgueddfa Sain Ffagan ym 1976.[19]

5.2.25 Saif Eglwys Fair a Thwrog yn agos at lefel yr afon islaw Gwesty'r Grapes. Fe'i cyrhaeddir drwy borth y fynwent o Stryd Bwl, a gwerthfawrogir yr olygfa (a fframiwyd yn fwriadol) â Phlas Tan y Bwlch y tu cefn.

5.2.26 Mae'r eglwys yn un ganoloesol, yn wreiddiol, ond fe'i hailadeiladwyd yn llwyr ym 1814 a thrachefn ym 1896, pan godwyd yr adeilad presennol gan gwmni adnabyddus Douglas a Fordham. Erys Maen Twrog, sef tarddiad tybiedig enw'r pentref, yn y gongl dde-orllewinol. Mae'r eglwys bresennol o'r arddull addurnedig. Mae'r meindwr a'r clochdy wedi'u gorchuddio â llechi ac mae arnynt olwg sydd bron yn Llychlynnaidd.

## 5.3 Deunyddiau a Manylion

5.3.1 Carreg yw prif ddeunydd adeiladu Maentwrog. Daw'r rhan fwyaf o lethrau lleol, wedi'i gloddio'n unswydd at y diben. Creigiau igneaidd yw'r prif ddeunyddiau adeiladu, sy'n gyforiog o haearn a rydd iddynt liw gwinau-oren pendant.



**26** Yr Hen Ysgol (2021).



**27** Cerrig sgist haenog efo cerrig copa a phileri sgist. Mae cerrig copa'r pileri o lechfaen. Grisiau i fyny at Benlan. (2021).

[19] https://museum.wales/stfagans/buildings/hayshed/

5.3.2 Defnyddir sgist, a gloddid yn chwarel Gelli Grin o eiddo teulu Oakeley, yn eang mewn talpiau sylweddol ar gyfer pileri (yn enwedig mewn ysguboriau gwair), linteri a cherrig copa. Gwneir yr hen reithordy'n gyfan gwbl o'r deunydd hwn.

5.3.3 Mae'r linteri llorweddol, sy'n ffurfio haen barhaus, bron, ar adeiladau fel Glan Dwyryd a Neuadd Llewelyn, yn arbennig o neilltuol.

5.3.4 Mae wynebau'r adeiladau yn aml o gerrig haenog, fel y rhes o'r 1830au sy'n cynnwys Gwesty'r Grapes, a'r stablau cysylltiedig. Defnyddiwyd cerrig rwbel llai ar gyfer y cefnau. Mae rhai adeiladau, fel Tan Lan, wedi'u codi'n gyfan gwbl o gerrig llai, ac efallai y'u rendrwyd neu y'u gwyngalchwyd. Hynny, efallai, er mwyn creu gwrthgyferbyniad rhwng yr adeiladai yn y golygfeydd pwysig, a chyfeirir at hyn yn ysgrifau John Evans o ddiwedd y 18fed ganrif fel *'the village of Maentwrog with its white-washed houses'*

5.3.5 Llechi yw'r toeau oll, ond maent yn amrywio'n fawr. Dim ond Llys Twrog sy'n arddangos y patrwm cynharach o lechi llai, mwy trwchus wedi'u gosod yn haenau sy'n lleihau'n raddol.

5.3.6 Mae'r rhan fwyaf o'r toeau yn awr o lechi meinach a dorrwyd â pheiriant, a ddeuent o gloddfeydd enfawr teulu Oakeley ym Mlaenau Ffestiniog. Defnyddir carreg Gelli Grin yn gerrig copa ar y toeau, ar bennau talcenni.

5.3.7 Mae bargodion dyfnion crog yn nodweddu rhai o'r adeiladau cynharach, yn enwedig yr Hen Reithordy a'r rhes sy'n cynnwys Gwesty'r Grapes.

5.3.8 Mae simneiau o garreg ac yn sylweddol. Mae rhai'r hen reithordy'n barau efo bwâu cysylltiol. Mae corn yr hen dollty wedi'i osod ar letraws ac yn nodwedd amlwg o'r olygfa ar draws Pont Maentwrog.

5.3.9 Mae ffenestri'n neilltuol bwysig. Yr oedd (ac y mae) gan fwyafrif yr adeiladau o ddechrau i ganol y 19eg ganrif ffenestri codi, ar yr wynebau amlycaf, o leiaf. Mae'r rhain o'r patrwm 8/8 ar yr adeiladau mwy.

5.3.10 Mae gan y rhestai llai a rhai o'r adeiladau diweddarach ffenestri codi neu adeiniog 2/2.

## 5.4 Ffiniau

5.4.1 Mae diffiniad gofod ym Maentwrog yn neilltuol bwysig i'w gymeriad. Mae amrywiaeth eang o ddulliau dynodi terfynau, ond mae llawer o gymeriad a diddordeb hanesyddol wedi goroesi. Amlinellir y rhain isod.



**28** Linter sgist mawr ymysg haenau cerrig breision. Sylwer ar y cerrig copa sgist hefyd. Tŷ'r Ysgol (2021).



**29** Creigiau gwaelofdol sylweddol ar ochr cyffordd Gellilydan, efo walio rwbel arnynt i greu uchder cyson. (2021).

5.4.2 Mae creigiau gwaelodol noethion yn nodweddu amryw leoedd, ond yn neilltuol i'r dwyrain o gyffordd ffordd Gellilydan.

5.4.3 Mae waliau cerrig yn amlwg ym mannau eraill, ac yn gyffredinol yn gymysgedd o gerrig igneaidd, nid llechi. Mae cen a'r lliw rhwd a achosir gan y cynnwys haearn yn bwysig i gymeriad y waliau.

5.4.4 Ni ddefnyddir ffensys llechi'n gyffredinol, ond mae rhan fer, bwysig yn y man lle mae ffyrdd Gellilydan a Harlech yn ymwahanu.

5.4.5 Erys sawl wal isel â rheiliau ar eu pennau, rhai o ansawdd da. Mae'r rhain yn cynnwys Yr Hen Ysgol a'r bythynnod cysylltiedig, a'r gofeb ryfel. Mae'n debyg fod giatiau'r hen reithordy yn dilyn patrwm blaenorol, ond y maent yn amnewidion diweddarach, wedi'u hasio.

## 5.5 Nodweddion Eraill, Manylion ac Arwynebau.

5.5.1 Mae gan y pentref nodweddion a gwrthrychau eraill sy'n cyfrannu at ansawdd a diddordeb yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

5.5.2 Y postyn milltir haearn bwrw yn ymyl Pont Maentwrog.

5.5.3 Yr wyneb crawiau cerrig a erys y tu allan i Westy'r Grapes (gosodwyd wyneb newyddach ymhellach ymlaen ar hyd y rhes).

5.5.4 Wyneb crawiau cerrig ym mhorth y fynwent a'i chyffiniau.

# 6.0 Asedau Hanesyddol

## 6.1 Asedau Hanesyddol Dynodedig

Ceir yr asedau hanesyddol dynodedig canlynol (adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig) yn yr Ardal Gadwraeth (gw. Ffig. 36):

6.1.1 Henebion Cofrestredig

- *Amherthnasol*

6.1.2 Adeiladau Rhestredig

- *83967 1 Dolwaen*
- *83968 1 Fron Fair Terrace*
- *83969 1 Fron Goch Terrace*
- *83974 2 Fron Fair Terrace*
- *83975 2 Fron Goch Terrace*



**30** Rheiliau a giatiau â cherrig copa a phileri sgist, Tai Glandŵr. (2021).



**31** Ffensus llechi ar y ffordd i Gellilydan. (2021).

- *83977 2 Tai Glandŵr gan gynnwys wal a giatiau'r ardd*
- *83978 2 Pen-trwyn-garnedd*
- *83979 3 Rhes Fron Fair*
- *83980 3 Rhes Fron Goch*
- *83982 3 Tai Glandŵr gan gynnwys wal a giatiau'r ardd*
- *83983 4 Rhes Fron Fair*
- *83984 4 Rhes Fron Goch*
- *83985 4 Tai Glandŵr gan gynnwys wal a giatiau'r ardd*
- *83986 5 Rhes Fron Fair*
- *83987 5 Rhes Fron Goch*
- *4828 Argraig*
- *4833 Bron-y-wern*
- *83990 Fflatiau Bryn neu Benlan*
- *4822 Bwlch y Maen – siop y coparét, gynt*
- *4831 Cartref*
- *83993 Eglwys Dwrog*
- *83994 Adeiladau cerbyty'r Oakeley Arms*
- *83996 Derlwyn*
- *4830 Dolydd*
- *4820 Glan Dwyryd*
- *83971 Tai Glandŵr gan gynnwys wal a giatiau'r ardd*
- *84003 Ysgubor wair gyferbyn â Derlwyn*
- *84004 Yr Hen Ysgol*
- *4832 Llys Twrog*
- *84008 Porth mynwent Eglwys Dwrog*
- *84011 Carreg filltir Pont Maentwrog*
- *4821 Neuadd Llewelyn*
- *4829 Yr Hen Ysgoldy*
- *4826 Penlan gan gynnwys y bwthyn cysylltiedig a elwid gynt yn Ddwyfor.*
- *4835 Pen-y-Bryn*
- *4695 Plas Dôl-y-moch*
- *4824 Pont Maentwrog*
- *84018 Adeiladau stablau i'r gogledd o Westy'r Grapes*
- *84019 Adeiladau stablau i'r de o'r Hen Reithordy*
- *84021 Grisiau i fyny at Benlan, a'r waliau o bobtu*
- *4825 Tan-lan*
- *4823 Gwesty'r Grapes*
- *4705 Gwesty'r Oakeley Arms*
- *4776 Yr Hen Reithordy*
- *83966 Bwthyn y Tollty a elwir yn Cerdwyd, hefyd*

6.1.3 Dynodiadau Ychwanegol Dichonol.

Bernir y dylid ystyried dynodi Fron Oleu (yn nesaf at Gapel Gilgal) a'r rhes tai sy'n cynnwys Isfryn, Tŷ Canol a'r tŷ nesaf atynt ar y rhestr genedlaethol yn grŵp o bwys ym mhen yma'r Ardal Gadwraeth.



**32** Y rhes tai anrhestredig ym Mron Oleu. (2021).



**33** Ysgubor wellt â phileri sgist tal gyferbyn â Derlwyn. (2021).

## 6.2 Asedau Hanesyddol Annynodedig o Ddiddordeb Lleol Arbennig

*Clustnodwyd yr asedau hanesyddol canlynol yn yr Ardal Gadwraeth yn rhai o ddiddordeb lleol arbennig (gw. Ffig. 37):*

- *Adeiladau gwasanaethyddol Gwesty'r Grapes*
- *Cyn-fodurdy Gwesty'r Grapes (ar ochr ddwyreiniol y ffordd)*
- *Adeiladau gwasanaethyddol yr Hen Reithordy*
- *Ysgubor wair i'r gogledd-orllewin o Eglwys Dwrog*
- *Y gofeb ryfel a'i rheiliau*
- *Cyn-gapel Seion*
- *Derwen*
- *Fron Oleu (gw. nodyn uchod)*
- *Glasfryn*
- *Capel Gilgal*
- *Isallt*

# 7.0 Ffin yr Ardal Gadwraeth.

7.1.1 Yn dilyn yr arfarniad nid argymhellir unrhyw newidiadau yn ffin yr Ardal Gadwraeth.

# 8.0 Hanesion Cudd (dichonoldeb archeolegol)

8.1.1 Bu Maentwrog ar lwybr trafnidiaeth rhanbarthol pwysig ers oes y Rhufeiniaid, o leiaf. O ganlyniad, dichon fod yno gryn weddillion archeolegol.

8.1.2 Nid yw maint na phatrwm yr anheddiad cyn ei ailddatblygu gan deulu Oakeley yn eglur iawn, felly dichon y darganfyddir rhagor am yr anheddiad cynnar o'r Cyfnod Canoloesol hyd yr 17eg ganrif.



**34** Y rhes tai anrhestredig islaw Fflatiau Penlan. (2021).



**35** Glasfryn (sylwer ar y paent a'r ffenestri uPVC cyfoes). (2021).

# 9.0 Asedau Dynodedig Eraill

## 9.1 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ardal Gadwraeth Arbennig.

9.1.1 Dynodir y coetir i'r de a'r dwyrain o Faentwrog, *Coedydd de Dyffryn Maentwrog*, yn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig.

9.1.2 Mae rhan o'r coetir i'r gogledd a'r dwyrain o'r Ardal Gadwraeth wedi'i dynodi'n ardal gadwraeth arbennig, hefyd. *Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion / Meirionnydd Oakwoods and Bat Sites.*

9.1.3 Mae Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA) yn safle a ddynodwyd tan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd yn rhan o'r rhwydwaith Natura 2000. Mae safleoedd Natura o bwys rhyngwladol ar gyfer amddiffyn amryw gynefinoedd a rhywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion gwyllt, bregus. Mae AGA yn cynnwys cynefinoedd a rhywogaethau tir a môr fel ei gilydd (arall nag adar, a ddiogelir ar wahân) a restrir yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.


9.1.4 Mae Coed Camlyn, i'r de o'r Ardal Gadwraeth, yn Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG) ac yn rhan o SoDdGA hefyd.

## 9.2 Gorchmynion Cadw Coed

9.2.1 Ar hyn o bryd ni chanfuwyd unrhyw orchmynion cadw coed o fewn yr Ardal Gadwraeth, ond mae diogelu ychwanegol ar y coetir cyfagos (gw. uchod).


## 9.3 Safle Treftadaeth y Byd

9.3.1 Mae Maentwrog ar lan Dwyryd gyferbyn ag ardal *Thirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru – Ffestiniog: ei Cheudyllau a Chwareli Llechi, 'Dinas y Llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog* Safle Treftadaeth y Byd (STB) Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru.




Listed Buildings

**36** Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)




Locally Significant Buildings
1:5000 @ A4

**37** Adeiladau o Bwys Lleol ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

# 10.0 Bioamrywiaeth

## 10.1 Coed

10.1.1 Gweler 9.2 am Orchmynion Cadw Coed.

10.1.2 Gweler 4.3 am ddisgrifiad o goed/coetiroedd pwysig o fewn yr Ardal Gadwraeth sy'n cyfrannu at ei chymeriad arbennig.

10.1.3 Ceir coetiroedd hynafol adferedig i'r gogledd a'r dwyrain o'r Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn gorgyffwrdd, yn rhannol, â'r ardaloedd dynodedig SoDdGa ac AGA.

## 10.2 Rhywogaethau Gwarchodedig.


10.2.1 Gwyddys fod sawl rhywogaeth warchodedig o bwys yn bresennol yn yr Ardal Gadwraeth a'i chyffiniau. Mae'r rhywogaethau'n cynnwys:

- Y Gwybedog Cefnddu
- Telor y Cnau
- Telor y Coed
- Y Tingoch
- Bele'r Coed

10.2.2 Oherwydd lleithder mawr coetiroedd derw cyffiniau Maentwrog, maent yn gynefin delfrydol ar gyfer rhedyn, cennau a mwsoglau. Cofnodwyd rhagor na 200 rhywogaeth llysiau'r afu yn y coetiroedd, ac ymysg y cennau sy'n brin yn y wlad hon, ceir yno *Graphina ruiziana,* sy'n tyfu ar risgl bedw ifainc, a *Parmeliella horrescens,* sy'n tyfu ar risgl bedw hŷn. Ymysg y mwsoglau lawer a geir ar y mariandir cerrig mawrion ceir Rhedynach Teneuwe Wilson *(Hymenophyllum wilsonii)*, ac y mae rhai planhigion o Redyn y Derw (*Gymnocarpium dryopteris*) yn ogystal â'r Marchredynen Gul *(Dryopteris carthusiana)*.


10.2.3 Gwyddys fod Dwyryd yn darparu cynefin ar gyfer poblogaeth o ddyfrgwn a gwencïod. Cofnodwyd llygod y dŵr a llygod y maes hefyd.

10.2.4 Mae'r ystlumod yn y coetir yn hynod bwysig hefyd. Mae'r rhywogaethau a gofnodwyd yn cynnwys yr Ystlum Trwyn Pedol Mwyaf (Rhinolophus ferrumequinum) – y rhywogaeth sydd fwyaf ym mherygl ym Mhrydain – a'r Ystlum Trwyn Pedol Lleiaf (Rhinolophus hipposideros). Ystlumod eraill y gwyddys y'u ceir yng nghoetiroedd Dyffryn Maentwrog yw'r Ystlum Hirglust (Plecotus auritius), Ystlum Natterer (Myotis nattereri), yr Ystlum Barfog (Myotis mystacinus), yr Ystlum Lleiaf (Pipistrellus pipistrellus) a'r Ystlum Mawr (Nyctalus noctula).






**38** Dynodiadau Eraill, Dalen 1 ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)




Other Designations

**39** Dynodiadau Eraill ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)



# **RHAN 2** – CYNLLUN RHEOLI'R ARDAL GADWRAETH .


## 1.0 Crynodeb o Ddadansoddiad CGCB

### CRYFDERAU

- Safle tirweddol da uwch Dyffryn Maentwrog.
- Golygfeydd a chysylltiadau â'r Plas yn aros bron fel y'u cynlluniwyd yn y 19eg ganrif.
- Golygfeydd o fewn y pentref yn hynod neilltuol, yn enwedig y grisiau i Benlan a'r golygfeydd at Eglwys Dwrog trwy borth y fynwent.
- Adeiladau da eu cyflwr, llawer wedi'u diogelu trwy gofrestru.
- Llawer o gwsmeriaid ar gyfer Gwesty'r Grapes ac o ddefnydd arno.
- Cysylltiadau â Harlech, Porthmadog a Blaenau Ffestiniog.

### GWENDIDAU

- Pwysau traffig ymwelwyr a pharcio ym misoedd yr haf.
- Diffyg parcio canolog yn y pentref.
- Diffyg siop a chyfleusterau pentrefol.
- Newid yr Ardal Gadwraeth yng Nghoed Camlyn a gwaith anorffen.
- Cyflwr dichonol Fflatiau Penlan (gwrthodwyd caniatâd ar gyfer fflatiau gwyliau yn y gorffennol diweddar.)
- Nid yw rhai adeiladau, fel Fron Oleu, wedi'u diogelu'n briodol.




### CYFLEOEDD

- Safle ac adeilad nesaf at Westy'r Grapes.
- Capel Gilgal, os yn segur.
- Ffurf mynedfa ac ymwybyddiaeth o Ardal Gadwraeth.
- Gwella bioamrywiaeth yn y pentref a'r cyffiniau.
- Gwell rheolaeth ar ddatblygiadau yn yr Ardal Gadwraeth a'r cyffiniau.
- Gwella cysylltiadau cerddwyr â'r llethrau cyfagos.
- Cysylltiadau dichonol â strategaeth cludiant cynaliadwy Partneriaeth Yr Wyddfa.
- Gwella arwynebau yn y pentref.
- Cyd-destun Safle Treftadaeth y

### BYGYTHION

- Pwysau traffig ymwelwyr a pharcio ym misoedd yr haf.
- Pwysau newid a llety gwyliau.
- Perygl newid adeiladau nas rhestrwyd ac adeiladau rhestredig onis diogelir yn iawn.
- Capel Gilgal yn segur, bellach, i bob golwg.
- Adeilad dirywiedig yn nesaf at stablau'r Grapes.

# 2.0 Deall y Materion

## 2.1 Cyflwr yr Ardal Gadwraeth

2.1.1 Mae Maentwrog yn bentref ystâd da iawn ei gyflwr. Er bod ganddo wreiddiau hŷn, mae'r hyn a welwn heddiw'n gysylltiedig, mewn gwirionedd, â'r ailddatblygu gan deulu Oakeley Plas Tan y Bwlch a oedd yn berchen ar lawer o'r pentref hyd y 1960au.

2.1.2 Mae'r ffaith fod cynifer o'r adeiladau wedi'u rhestru yn adlewyrchu pwysigrwydd y dreftadaeth bensaernïol, ac wedi sicrhau y cadwyd llawer iawn o nodweddion a manylion gwreiddiol hefyd.

2.1.3 Mae mwyafrif yr adeiladau'n gartrefi neu mewn defnydd buddiol, ond mae rhai pwysig sydd naill ai'n wag neu heb eu defnyddio i'r llawn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Safle nesaf at Westy'r Grapes, sef adeiladau gwasanaethyddol gynt, debyg.
- Ni ddefnyddir Capel Gilgal ar hyn o bryd.

2.1.4 Mae rhai materion sy'n effeithio er gwaeth ar ddiddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Disodli gwaith coed, ffenestri a drysau hanesyddol gan rai cyfoes, uPVC gan amlaf.
- Pwyntio adeiladau hanesyddol â morterau anaddas.
- Adeiladu estyniadau, terfynau a gwaith newydd yn yr Ardal Gadwraeth nad yw'n adlewyrchu'r amrywiaeth pwysig o ddeunyddiau presennol. Yn hanesyddol ni ddefnyddid llechi'n gyffredin ar gyfer waliau, ond mae'n arferol ar gyfer gwaith newydd. Dylid hyrwyddo deunyddiau addasach.
- Datblygiadau neu estyniadau anaddas neu o safon wael.
- Colli dulliau traddodiadol dynodi terfyn.
- Gormes cerbydau, parcio a thraffig.

2.1.5 Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys:

- Disodli ffenestri ag uPVC yn Nhai Glandŵr.
- Datblygu o ansawdd annigonol (ac anorffenedig, yn rhai achosion) yng nghyffiniau pen Coed Camlyn y pentref.
- Arosfa bysus a blwch ffôn o ansawdd gwael yn ymyl cyffordd ffordd Gellilydan.



**40** Safle nesaf at Westy'r Grapes.




**41** Datblygiad cyfoes a thŷ unllawr yng Nghoed Camlyn.

## 2.2 Adeiladau mewn Perygl

2.2.1 Ar hyn o bryd ni restrwyd Capel Gilgal ac nid yw’n addoldy, bellach. Ymddengys ei fod mewn cyflwr allanol rhesymol, ond mae arno angen defnydd newydd cynaliadwy ac addas. Dylai hyn gynnwys y waliau a’r rheiliau, sy’n bwysig i olwg y stryd.

2.2.2 Mae’r adeiladau gwasanaethyddol nesaf at y Grapes mewn cyflwr gwael. Mae angen eu trwsio a chanfod defnydd addas, newydd iddynt.

## 2.3 Golwg Cyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB.

2.3.1 Gwnaed dadansoddiad CGCB o Ardal Gadwraeth Maentwrog. Defnyddir hwn i adnabod y problemau, ond rhai o’r cyfleoedd a chryfderau cynhenid yr Ardal Gadwraeth, hefyd. Yna fe oleua creu’r cynigion rheolaeth adeiladol sy’n canlyn.

2.3.2 Dengys y dadansoddiad CGCB sawl pwynt gweithredu pwysig, er mwyn adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd yr Ardal Gadwraeth. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Cefnogi ailosod manylion adeiladau hanesyddol ac uwchraddio cynaliadwy ar gyfer gwell perfformiad amgylcheddol lle bo’n addas.
- Canfod defnyddiau newydd ar gyfer Capel Gilgal a’r adeiladau gwasanaethyddol gynt yng Ngwesty’r Grapes. Sicrhau dwyn Fflatiau Penlan yn ôl i ddefnydd cyflawn yng ngwir ystyr y gair.
- Gwell rheolaeth ar ddatblygiadau yn yr Ardal Gadwraeth a’i chyffiniau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu deunyddiau lleol yn well a’u bod o ansawdd, trefn a chynllun addas.
- Ystyried gwell cysylltiadau cerdded â’r llethr i’r dwyrain o’r pentref.

2.3.3 Clustnoda’r CGCB sawl gwendid a bygythiad, a ddynodir yn bwyntiau gweithredu. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Ceisio ymgysylltu adeiladol er mwyn dadwneud newidiadau difrodus i adeiladau a nodweddion o bwys.



**42** Mae gan Gapel Gilgal waliau terfyn, rheiliau, a nodweddion da eraill y dylid eu cadw. (2021).



**43** Gallai wynebu addasach wella canol y pentref a bod o gymorth i reoli llif traffig. (2021)

- Dichonoldeb dod â gwell cyfleusterau i gymuned y pentref ac ymwelwyr trwy ganfod defnyddiau buddiol i'r adeiladau nas defnyddir yn llawn.
- Sicrhau diogelu mannau gleision a golygfeydd allweddol trwy ymgysylltu lleol ac wrth ystyried ceisiadau cynllunio.

# 3.0 Rheolaeth Adeiladol.

## 3.1 Newid Ffiniau.

3.1.1 Nid argymhellir newid ffin yr Ardal Gadwraeth.

## 3.2 Diogelwch Polisi Lleol a Chenedlaethol

3.2.1 Darperir y cyd-destun fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth yn y ddogfen gyflwynol ***Cyflwyno a Throsolwg Polisi Cynllunio WEBLINK.*** Rhydd y ddogfen hon arweiniad a pholisïau cyffredinol hefyd.

3.2.2 Fel y nodwyd yn 6.1 yr AAC, bernir y dylid ystyried dynodi Fron Oleu (nesaf at Gapel Gilgal) a'r rhes sy'n cynnwys Isfryn, Tŷ Canol a'r tŷ cyfagos ar y rhestr genedlaethol megis grŵp pwysig ym mhen yma'r Ardal Gadwraeth.

## 3.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth

3.3.1 Dichon i weithredu ynghylch rhai o'r materion (gw. 2.0) a'r gwendidau a'r bygythion i'r Ardal Gadwraeth wella ei diddordeb arbennig yn sylweddol. Gellid gwneud hyn trwy rymoedd neu arweiniad cynllunio estynedig.

3.3.2 Mae materion a chyfleoedd penodol yn cynnwys:

- Dwyn yr adeiladau nesaf at Westy'r Grapes yn ôl i ddefnydd buddiol a cheisio gweithredu brys i atal dirywiad.
- Ystyried dewisiadau er mwyn rheoli llif cerbydau trwy'r pentref yn well, a lleihau problemau parcio, gan annog defnyddio gwasanaethau lleol fel Gwesty'r Grapes.
- Ceisio rheoli datblygu o ansawdd anaddas ar ymylon yr Ardal Gadwraeth.

- Annog ailosod manylion gwaith coed addasach ar adeiladau o bwys lleol, yn lle amnewidion uPVC cyfoes.
- Adeiladu ar yr amrywiaeth eang o rywogaethau a nodweddion naturiol arbennig y pentref a'i gyffiniau, a chynyddu ymwybyddiaeth ohonynt.

3.3.3 Gan ddefnyddio'r cyfarpar uchod a thrwy'r ymgynghoriad (gw. isod), cosi ymwybyddiaeth o'r Ardal Gadwraeth, ei gwneud yn amlycach, ac annog datblygu a newid addas. I gynnwys:

- Ymwybyddiaeth â pherchnogion a chymuned Maentwrog.
- Codi ymwybyddiaeth, a gwella medrau ymgymerwyr a chrefftwyr lleol, gyda chefnogaeth yn y dyfodol.

## 3.4 Cynaliadwyedd a Gwella Amgylcheddol

3.4.1 Ceir cyfarwyddyd ynghylch dull cywir cyflwyno gwelliannau effeithlonrwydd ynni, a'r caniatadau angenrheidiol yn Ardaloedd Cadwraeth Eryri, yn y ddogfen: ***Cyngor Ynghylch Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth - Canllaw Cynllunio ac Ymarferol WEBLINK***

3.4.2 Mae gan Faentwrog gyfleoedd naturiol ar gyfer cynhyrchu ynni ar raddfa fechan a chynsail hanesyddol dros ddefnyddio'r amgylchedd naturiol ar gyfer darparu pŵer, fel gorsaf ynni 1928 Maentwrog.[20]

3.4.3 Dylid cefnogi ac annog cynlluniau cynhyrchu ynni cynaliadwy lle nad ydynt yn effeithio er gwaeth ar gymeriad arbennig neu fioamrywiaeth yr Ardal Gadwraeth.

## 3.5 Bioamrywiaeth

3.5.1 Mae coed yn hanfodol bwysig i'r fioamrywiaeth a'r arwyddocâd esthetig. Diogelir amryw goed gan orchmynion cadw (gw. 8.3). Clustnodwyd coed eraill fel rhai o bwys yn yr Ardal Gadwraeth (gw. 4.3).

3.5.2 Bernir y dylid ystyried gorchmynion cadw ar gyfer coed y fynwent a'i chyffiniau, yn enwedig yr ywen.

3.5.3 Mae dichonoldeb gwella bioamrywiaeth yn yr Ardal Gadwraeth yn bwysig. Gallai gweithredu gynnwys, er enghraifft:

[20] https://coflein.gov.uk/en/site/33605?term=maentwrog&pg=4

- Gosod blychau adar ac ystlumod a datblygu cynllun rheoli blychau.
- Gall defnydd addas o doeau gwair a nodweddion adeiledig eraill mewn estyniadau neu adeiladau newydd, lle bo'n gydnaws â'r dreftadaeth adeiledig, wella cynefinoedd bywyd gwyllt.
- Rheoli a gwella gwrychoedd.
- Amddiffyn coed yn ystod gwaith adeiladu.
- Peidio ag ymyrryd â choed fel y gallant aeddfedu.
- Cadw pren marw safadwy a chreu pentyrrau pren marw ar gyfer pryfed a bywyd gwyllt arall.

3.5.4 Sicrhau goleuo datblygu gan ardaloedd cymeriad neilltuol yr Ardal Gadwraeth, a'i fod yn gydnaws â hynny ac yn ystyried tystiolaeth arall am nodweddiad hanesyddol a sensitifrwydd dirweddol y cyffiniau.

3.5.5 Sicrhau y bydd cynigion datblygu yn gwella diddordebau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth.

3.5.6 Gweithio â phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddatblygu a sicrhau gweithredu prosiectau i wella'r dirwedd a chreu a gwella cynefinoedd o werth cadwraeth natur.

3.5.7 Annog datblygiad i gynnwys camau i gyfrannu'n adeiladol at fioamrywiaeth gyffredinol yr ardal.

3.5.8 Gwella seilwaith gwyrdd mewn modd sy'n darparu ar gyfer anghenion ynni'r ardal heb effeithio er gwaeth ar fioamrywiaeth neu gymeriad yr Ardal Gadwraeth.

# 4.0 Ymgynghori

4.1.1 Ymgynghorwyd ynghylch Cynllun Arfarnu a Rheoli drafft yr Ardal Gadwraeth fel a ganlyn:

- Cyngor Cymuned Maentwrog (holiadur wedi'i gylchredeg)

# Atodiadau:

## Atodiad A - Ffynonellau

Dyma'r prif ffynonellau gwybodaeth cyhoeddedig a ddefnyddiwyd wrth gynhyrchu'r Arfarniad hwn:


Beverley Smith, J, *History of Merioneth II*, University of Wales Press, 2001.

Fenton, R. (1810), *Tours in Wales (1804–1813)* (ailgyhoeddwyd gan y Cambrian Archaeological Association ym 1917)

Gwyn, D (2006), *Gwynedd: Inheriting a Revolution* (Phillimore, Chichester) Hall, W. (1881),

Gwyn, D *Welsh Slate: The Archaeology and History of an Industry (RCAHMW 2015).*

Hall, E. Hyde (1811), *A Description of Caernarvonshire (1809–11) (argraffiad 1952).*

Haslam, R., Orbach, J. a Voelcker, A. (2009) *The Buildings of Wales: Gwynedd* (Yale University Press, London).

Hubbard, E, *'The Work of John Douglas'* Jeremy Mills Publishing 2013.

Hughes H a North H. L. *'The Old Churches of Snowdonia' (1924).*

Hughes, Gwyndaf, *House on a Hill: A History of Plas Tan Y Bwlch and the Maentwrog Valley,* Snowdonia National Park Study Centre, 1989

Lewis, S. (1849), *A Topographical Dictionary of Wales* (London)

Lewis, M.J.T *'Sails on the Dwyryd'* Snowdonia National Park Study Centre, 1989

Pennant, T. (1781), A *Tour in Wales* (London) (1773-76), *Cafwyd mynediad trwy:* [https://www.library.wales/discover/digital-gallery/pictures/a-tour-in-wales](https://www.library.wales/discover/digital-gallery/pictures/a-tour-in-wales)

Roscoe, T. (1853), *Wanderings and Excursions in North Wales* (London)

Smith, B. a Neville George, T. *British Regional Geology – North Wales (HMSO) 1961.*

Williams-Jones, K. *The Merioneth Lay Subsidy Roll 1292-3,* Univ.of Wales Press, 1976.

Ymddiredolaeth Archeolegol Gwynedd Archaeological Trust (YAG) adroddiad rhif 1085 (Evans, R a Robertson, A)*, Maentwrog Draft Conservation Area Appraisal*, 2012.

YAG, 2003 Historic Landscape Characterisation- Vale of Ffestiniog (adroddiad rhif 351)